

HOSPIS TŶ'R EOS

CYLCHLYTHYR GWANWYN 2023



Cyflwyno Cam 4...

"Rydym yn rhannu ein cynlluniau cyffrous i foderneiddio'r Uned Cleifion Mewnol."

- Laura Hughes, Rheolwr Ward

**GWELER
TUDALEN 3**
am ragor o fanylion...

CROESO

Croeso i Gylchlythyr y Gwanwyn.

Mae'n bleser eich diweddarw ar nifer o ddatblygiadau newydd cyffrous yn Nhŷ'r Eos.

Cyn hir bydd Tŷ'r Eos yn cychwyn ar y pedwerydd cam a'r olaf o'u rhaglen foderneiddio. Roedd y ddau gam gyntaf a gychwynnodd ym mis Mai 2019 yn cynnwys ail-ddylunio'r holl ddarpariaeth gwasanaethau dydd, a adwaenir yn awr fel y Ganolfan Llesiant, cyfleusterau adsefydlu a champfa newydd, derbynfa newydd i gleifion ac ymwelwyr, creu siop anrhegion newydd i'r hosbis, creu'r Atriwm Bradbury newydd ac ail-ddylunio mynedfa Grove Road ar gyfer y ward cleifion mewnol. Cychwynnwyd ar y trydydd cam ym mis Medi 2021, ac roedd yn cynnwys datblygu maes parcio gyda lle i barcio 27 o geir cleifion ac ymwelwyr ar dir cyfagos. Bydd y pedwerydd cam yn cynnwys ail-ddylunio ein ward cleifion mewnol yn gyfan gwbl a bydd yn sicrhau'r cyfleusterau a'r amgylchedd gorau posibl i'n cleifion a'u hanwyliaid, ein staff a gwirfoddolwyr. Bydd gwaith ar y ward cleifion mewnol newydd yn cychwyn ym mis Ebrill a disgwylir ei gwblhau ym mis Rhagfyr, gyda'r cyfleusterau newydd yn barod ar gyfer cleifion yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Tra bydd y gwaith yn cael ei wneud rydym yn chwilio am lety dros dro addas i'r cleifion i sicrhau ein bod yn dal i helpu ein cymuned gyda gofal cleifion mewnol parhaus. Bydd hon yn her enfawr i'r hosbis, yn ariannol ac o ran logisteg ond, gyda chefnogaeth ein cymuned rwyf yn siŵr y gallwn ei goresgyn. Bydd yr holl wasanaethau eraill i gleifion yn yr hosbis yn parhau'n agored pan fydd y ward ynghau.

Mae'r rhaglen i foderneiddio'r hosbis yn golygu buddsoddiad o £5m a bydd yn sicrhau bod gan Dŷ'r Eos gyfleusterau modern, rhagorol a fydd yn ein galluogi i ddarparu gofal i gleifion am yr 20 mlynedd nesaf. Mae pob agwedd ar waith moderneiddio'r hosbis wedi'i ddylunio i ddarparu ar gyfer niferoedd uwch o gleifion ac i gyflawni nod strategol yr hosbis i ddarparu help a chefnogaeth i gynifer o gleifion â phosibl. Ni fyddai'r buddsoddiad sylweddol hwn yn nyfodol yr hosbis wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth ein cymuned dros y blynyddoedd. Bydd angen eich cefnogaeth arnom yn fwy nag erioed eleni i dalu am y gwaith moderneiddio ac adleoli'r cleifion mewnol dros dro. Mae'r hosbis yn eiddo i'w gymuned ac ar ôl cwblhau'r gwaith moderneiddio, bydd gan y gymuned y cyfleusterau hosbis gorau posibl, cyfleusterau a fydd yn gyfle i gynyddu nifer y cleifion yn y dyfodol.



Ar adeg ysgrifennu hwn ddechrau mis Mawrth, cyhoeddwyd y byddai Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr (BIBC) yn mynd i fesurau arbennig unwaith eto. Mi hoffwn sicrhau pawb na fydd Tŷ'r Eos yn cael ei effeithio'n uniongyrchol gan y datblygiadau hyn. Rydym yn hosbis annibynnol ac rydym mewn sefyllfa gref i barhau i ddarparu'r gofal gorau posibl i'n cleifion, ac i helpu eu hanwyliaid.

Yn ddiweddar cyhoeddodd Tŷ'r Eos newidiadau cyffrous i'w strwythur meddygol mewn gwasanaethau clinigol. Mae Tŷ'r Eos wedi ffurfio partneriaeth newydd â Supportive Care UK Ltd a fydd yn sicrhau bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a meddygol yn cyfuno eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad i drafod triniaeth cleifion unigol bob dydd. Cyn Awst 2022 roedd yr hosbis yn dibynnu ar BIPBC ar gyfer ymgynghorwyr. Mae Supportive Care UK yn awr yn darparu model cynaliadwy i'r hosbis i ddarparu gofal lliniarol arbenigol rhagorol i'n cleifion, a rhaglen hyfforddi a datblygiad wythnosol o'r radd flaenaf i'n timau meddygol a chlinigol. Bydd y bartneriaeth hefyd yn galluogi'r gwasanaeth i ehangu yn y dyfodol i gyd-fynd â'n gweledigaeth strategol i gynyddu nifer y cleifion y byddwn yn gallu eu cynorthwyo.

Ym mis Ionawr, ail-lansiodd ac ail-frandiodd Tŷ'r Eos yr uned Gwasanaethau Dydd fel Canolfan Llesiant Tŷ'r Eos a chyflwynwyd rhaglen Llesiant 12 wythnos newydd sbon sy'n seiliedig ar ofal unigol a chyfannol i gleifion. Mae'r rhaglen, a ddatblygwyd gan y timau meddygol a chlinigol yn yr hosbis, wedi cael adborth positif gan gleifion ar y rhaglen. Bydd y fenter newydd hon yn sicrhau ein bod yn gallu helpu mwy o gleifion ac yn diwallu anghenion cynyddol ein cymuned. Bydd gwasanaethau eraill, fel apwyntiadau i gleifion allanol, therapi cyflenwol ac adsefydlu yn parhau i ddigwydd ochr yn ochr â'r Rhaglen Llesiant a bydd yn darparu cymorth parhaus i gleifion a'u teuluoedd.

Ym mis Chwefror, trefnodd a chynhaliodd Tŷ'r Eos rhaglen hyfforddi i 32 o feddygon teulu o bob cwr o Ogledd a Chanolbarth Cymru. Roedd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) wedi gofyn am y rhaglen ac roeddem yn falch o'r cyfle i godi ymwybyddiaeth ymhlith y genhedlaeth nesaf o feddygon teulu o'r ystod gynyddol o wasanaethau i gleifion a lefel yr arbenigedd sy'n awr o fewn ein gallu. Y gobaith yn awr yw y bydd yr ymwybyddiaeth gynyddol hon o ystod y gwasanaethau hosbis yn y dyfodol yn arwain at atgyfeiriadau mwy amserol. Roedd adborth AaGIC a'r meddygon teulu a oedd yn bresennol yn ardderchog a byddwn yn parhau i weithio gydag AaGIC ac yn helpu i ddarparu hyfforddiant i weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn y dyfodol.

Dyma ddwy enghraifft ddiweddar o arloesi yn ein gwasanaethau i gleifion a'n gallu i redeg rhaglen addysgol ragorol. Mae llwyddiant y ddau'n deillio o rannu gwybodaeth a'r gwaith tîm da sy'n bodoli rhwng y timau meddygol a chlinigol yn yr hosbis.

Fel hosbis annibynnol, bydd Tŷ'r Eos yn parhau i arloesi i wella ein gwasanaethau i gleifion ac i gynyddu niferoedd ein cleifion. Mi wyddom fod rhai heriau sylweddol o'n blaenau yn 2023. Bydd adeiladu'r ward newydd ac adleoli ein gwasanaethau cleifion mewnol dros dro'n ymestyn ein hadnoddau i'r eithaf, ond rydym yn benderfynol o ddal ati i ddarparu gofal rhagorol i gleifion ac i gefnogi ein cymuned drwy gydol y cyfnod anodd hwn.

Mi hoffwn gydnabod a diolch i bawb sydd wedi cefnogi Tŷ'r Eos yn y gorffennol a phawb sy'n parhau i wneud hynny. Fel hosbis elusennol, mae eich cefnogaeth yn hanfodol i'n helpu i barhau i ddarparu gofal i gleifion.

Diolch yn fawr



Steve Parry, Prif Swyddog Gweithredu

DATGANIAD CENHADAETH

Darparu gwasanaethau i unigolion a'u teuluoedd sy'n byw yng Ngogledd Ddwyrain Cymru a'r gororau sy'n byw gyda diagnosis o salwch cynyddol a/neu salwch sy'n cyfyngu ar fywyd, wedi'i ddarparu pan yn bosibl yn y lleoliad o'u dewis a bod amser o fewn yr adnoddau sydd ar gael i Hosbis Tŷ'r Eos.

Yn dilyn asesiad o anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol ac ysbrydol, bydd gwasanaethau'n cael eu darparu gan dîm aml-ddisgyblaethol sydd wedi'i hyfforddi ac sy'n gymwys i ddiwallu anghenion pob claf, gan gynnwys rhag ag anghenion cymhleth, arbenigol.

GWELEDIGAETH

Darparu gofal rhagorol, personol a thosturiol i rai sy'n byw â salwch cynyddol a/neu sy'n cyfyngu ar fywyd yn ein cymuned a chymorth i'w teuluoedd a'u hanwyliaid.

GWERTHOEDD

Mae gwerthoedd yn berthnasol ym mhob lleoliad, yn y rhyngweithio rhwng staff a gwirfoddolwyr, sut yr ydym yn trin cleifion a theuluoedd, sut yr ydym yn ymgysylltu â sefydliadau partner, cefnogwyr a chyflenwyr. Ymdrechwn bob amser i fod yn dosturiol, cynhwysol, gonest, parchus a rhagweithiol.

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Dydd Iau 8 Mehefin 2023, 10:30am yn Hosbis Tŷ'r Eos, Ffordd Caer, Wrexham LL11 2SJ
For further information please contact the hospice.

CYSYLLTU Â NI



Nightingale House Hospice,
Chester Road, Wrexham, LL11 2SJ



01978 316800



info@nightingalehouse.co.uk



nightingalehouse.co.uk



nightingalehouse



nightingalehh

Elusen Gofrestredig 1035600 (
Cyfyngedig drwy Warant)

CAM 4

MODERNEIDDIO'R UNED

CLEIFION MEWNOL



■ Bydd Cam 4 yn cwblhau rhaglen foderneiddio'r Hosbis.

Ers gorffen moderneiddio'r Ganolfan Llesiant, y Ganolfan Adsefydlu ac adeiladu'r maes parcio newydd i gleifion ac ymwelwyr, mae'r hosbis wedi troi ei olygon at foderneiddio'r Uned Cleifion Mewnol.

- Yn ystod y 25-30 mlynedd diwethaf mae'r mudiad hosbis wedi cefnu ar unedau cleifion mewnol tebyg i wardiau (wedi'u lleoli mewn ysbytai gan amlaf gan droi at hosbisau pwrpasol gydag ystafelloedd sawl gwely. Fodd bynnag, mae angen newidiadau sylweddol i gydymffurfio â'r arferion gorau ac i ddiwallu anghenion y gymuned.
 - Mae'r prosiect yn golygu trawsnewid yr Uned Cleifion Mewnol ac mae cleifion a'u teuluoedd yn ganolog i'r prosiect. Er ein bod yn adeiladu o fewn yr ôl troed presennol, bydd popeth heblaw am y waliau allanol a'r to yn newid, ailgynllunio'r ward, cael gwared ar yr ystafell haul bresennol a chael ystafell wely ychwanegol yn ei lle. Bydd hyn yn creu 12 o ystafelloedd gwely unigol yn lle'r 10 presennol.
- Bydd cynlluniau Cam 4 yn arwain at wella'r gofal y gallwn yn ei ddarparu i deuluoedd yn y dyfodol. Y prif addasiadau i'r Uned Cleifion Mewnol fydd:
- Newid y diwyg 10 ystafell wely presennol i gael 12 ystafell wely. Gwella profiad y cleifion gydag ystod o drefniadau ystafelloedd gwely i ddiwallu anghenion unigol a chaniatáu mwy o hyblygrwydd ar gyfer ymweliadau teuluol.
 - Bydd pob ystafell wely'n cynnwys ystafell wlyb en-suite, offer codi a thoiledau y gellir eu haddasu, gwely, matres, a system aerdymheru. Bydd y cyfarpar codi newydd yn gwneud y cyfleusterau ymolchi a phersonol yn haws i'w haddasu ac yn fwy cyfleus i gleifion a staff.
 - Bydd yr holl ystafelloedd gwely a mannau eraill yn cael eu haddurno i wella'r hwyliau gan ddefnyddio lliwiau fel gwyrdd (natur, gwella) a glas (ymddiried a heddwch).

“

Ein nod yw gwella profiad y claf. Mae angen uwchraddio'r cyfleusterau er mwyn cyfforddusrwydd y cleifion ac i'n galluogi ni i ofalu amdanynt mewn amgylchedd clinigol mwy modern.

Mae'r cynlluniau hefyd yn cynnwys ystafelloedd i berthnasau sy'n galluogi anwyliaid cleifion i aros gyda hwy.

”



Laura Hughes
Rheolwr Ward

- Creu ystafelloedd i ganiatáu mynediad rhwydd i batios unigol. Mi wyddom fod gweld a phrofi natur, yn enwedig os gellir gwthio gwely at y patio, ar adegau priodol, yn gallu gwella llesiant a chaniatáu myfyrio heddychlon ar harddwch natur.
- Bydd dyrannu cyfleusterau'n galluogi staff a gwirfoddolwyr i dreulio mwy o amser â chleifion a lleihau 'amser teithio' i nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Bydd ailfodelu'r ystafelloedd gwasanaeth, fel cael dwy ystafell golchi/golchi dillad fel y bydd un ystafell ar gyfer pob adain ward.
- Sefydlu dwy orsaf nyrsys ar wahân, un ar gyfer pob adain, i wella diogelwch cleifion drwy alluogi staff i weld ystafelloedd y cleifion yn eu hadain, gan eu galluogi i ymateb yn gyflymach i anghenion cleifion.
- Creu cegin gyda chyfleusterau bwyta.



NURSE BASE



PATIENT ROOM



RECEPTION

Bydd cyfanswm cost y prosiect yn £2.7m, ein buddsoddiad mwyaf ers agor yr hosbis 27 o flynyddoedd yn ôl! Rydym yn ddiolchgar i'r Sefydliadau, yr Ymddiriedolaethau, y busnesau a'r unigolion sydd eisoes wedi ymrwymo i gyfrannu at Gam 4.

Bydd y gwaith yn dechrau yn ystod y Gwanwyn hwn gyda'r nod o'i orffen cyn Nadolig 2023, felly mi fyddwn yn brysur yn codi arian drwy gydol y flwyddyn i drawsnewid yr Uned Cleifion Mewnol.

RYDYM YMA I HELPU EIN GILYDD



Rydym yn ffodus dros ben ein bod yn gallu treulio amser gwerthfawr â'n cleifion. Maent yn awyddus bob amser i rannu eu storïau ac i roi adborth fel y gallwn wella ein gwasanaeth yn barhaus.

Bu'r cyn weithiwr meddygol proffesiynol, Beatrice (yn y llun) yn trafod ei phrofiad o ofal hosbis.

"Mae gen i glefyd y galon, felly mae mynd i Dŷ'r Eos wedi bod yn help mawr, i mi ac i fy ngŵr. Mae wedi rhoi seibiant iddo, ac mae wedi bod yn gyfle imi i ddysgu sgiliau newydd ac i fwynhau'r ymdeimlad o gymuned a geir yma. Mae fy ngŵr wedi bod yn gofalu amdanafers tipyn o flynyddoedd, ac mae'n gallu achosi straen ar adegau, nid am ei bod yn anodd gofalu amdanaf...ond mae cael diwrnod i ffwrdd wedi ein galluogi i ymlacio a pheidio poeni drwy'r amser. Mae awyrgylch gofalgarg yma sy'n gwneud i chi deimlo nad chi yw'r unig un sy'n mynd drwy hyn."

"Rydych yn cael llawer o gefnogaeth gan gleifion eraill a'r staff, mae pawb yn yr un cwch ... dyna sut mae'n teimlo yma."

Fel cyn nyrs, mae Beatrice yn deall pwysigrwydd gofalu am gleifion a'u teuluoedd ...

"Mi oeddwn yn arfer bod yn nyrs, ac mae'n torri fy nghalon i feddwl bod rhai pobl nad ydynt yn cael gofal, yn enwedig yn eu blynyddoedd olaf... roedd fy nghyfnither yn glaf mewn hosbis yn Lerpwl, ac fel yma, mi gafodd hi a'i theulu ofal arbennig. Mi wyddwn cyn dod yma bod hosbisau'n llefydd trugarog. Mae'n dda bod llefydd fel hyn ar gael, lle gall pobl gael y gofal ychwanegol sydd ei angen arnynt."

Mi all pobl deimlo eu bod wedi'u hynysu cyn dod i hosbis, yn enwedig os ydynt wedi bod yn sâl am amser hir. Meddai Beatrice...

"Nid ydych yn cael yr un cysylltiad cymdeithasol; ni allwch fynd allan mor aml...roeddwn yn teimlo'n ofnus bron bod yn rhan o gymdeithas. Roeddwn yn meddwl...fedra i ddim gwneud hyn, all i ddim gwneud y llall – yn enwedig yn ystod Covid. Mae dod i'r hosbis yn gwneud i fy mywyd deimlo'n fwy normal, os yw hynny'n gwneud synnwyr."

"Mi ydych yn cael gofal da iawn yn Nhŷ'r Eos ...100%."



TAITH GANOL NOS


Ein prif ddigwyddiad: Bydd y Daith Ganol Nos yn dychwelyd nos Sadwrn 24 Mehefin 2023 i ddathlu pen blwydd y digwyddiad yn 15 oed mewn steil!

Gan gychwyn yn Llwyn Isaf, Wrecsam bydd cefnogwyr o bob rhan o'r gymuned yn dod at ei gilydd unwaith eto i godi arian i Hosbis Tŷ'r Eos. Eleni, bydd llwybr 5km newydd sbon a'r llwybr 10km arferol ar gael gyda digon o hwyl ar hyd y ffordd.

Gall y cerddwyr gyrraedd o 9pm ymlaen i fwynhau'r perfformiadau a'r gweithgareddau ar gae'r digwyddiad i'w cadw'n ddiddan tra byddwn yn aros i'r cloc daro hanner nos!

Yno hefyd bydd gwerthwyr bwyd lleol i'ch galluogi i gael tamaid blasus cyn dechrau cerdded a bydd y clustiau cwningen chwedlonol yn dychwelyd ynghyd â nwyddau gloyw newydd i'w prynu!

SGANIWCH FI!



Neu ffoniwch y tîm codi arian ar 01978 314292

NODDIR Y DAITH GANOL NOS GAN:

RHAGOROL O'R TAP
WONDERFUL ON TAP

HAFREN
DYFRDWY
severn dee

HOYA



Graham yn y llun gyda'r ci
'Anifeilaidd Anwes fel Therapi
'Barney'

DYCHWELYD I BWY OEDDEM NI GYNT...

Mi ddaethom ar draws Graham pan oedd mewn sesiwn therapi celf yn ein Canolfan Llesiant, i drafod ei sefyllfa a sut mae'n elwa ar ei amser yn yr hosbis.

"Wel, y peth yw pan fo canser arnoch, ac yn enwedig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae fy ngwraig a minnau wedi cael trafferth ymdopi â'r sefyllfa. Rydym wedi bod yn gaeth i'r tŷ heb weld neb na gwneud dim."

"Y peth mwyaf rydym yn gobeithio'i gael drwy ddod i Dŷ'r Eos yw dysgu sut i fod fel roeddem ni gynt. Cael sgysiau â phobl a gwneud pethau fel hyn, therapi celf...mae'n ffodd o ddychwelyd i bwy oeddem ni gynt."

"Mae dosbarth therapi celf heddiw'n dda am ei fod yn golygu bod ychydig o ofod rhyngom, mae fy ngwraig yn gwneud beth mae hi eisiau ei wneud ac mi ydw i yma, mae'n gyfle i fy ngwraig gael seibiant hefyd." Pwysleisiodd Graham gymaint y mae'n gwerthfawrogi dod i'r hosbis...

"Mae'n lle mor braf i fod, ni allai fod yn brafiach ... mae pawb mor garedig. Ac mae'n rhywbeth y byddaf yn edrych ymlaen ato ... uchafbwynt yr wythnos."

"Y croeso cynnes, a'r gwasanaeth a gewch yw'r pethau gorau am ddod i'r hosbis. Mae'n wasanaeth heb ei ail."

**"Rwyf wedi dweud wrth fy
nheulu nad ydych yn mynd i
hosbis i farw; rydym yn mynd
yno i fyw. I mi, mae'r hosbis
yn teimlo mor heddychlon,
dyna sut y buaswn yn ei
ddisgrifio ...heddychlon.
Efallai na fydd pobl sydd
heb fod yma'n gwybod
nac yn deall."**

5ED PENBLWYDD DÔL HEULWEN

Daeth Dôl Heulwen Hosbis Tŷ'r Eos i fodolaeth o ganlyniad i'r angen a phwysigrwydd talu teyrnged i'r rhai rydym wedi'u caru yn ystod ein hoes.

Yn 2023 byddwn yn dathlu pumed pen blwydd y Ddôl drwy ddychwelyd i Gastell y Waun yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r Ddôl wedi bod yn hafan fyfyrion a heddychlon yng nghalon eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ers sawl blwyddyn i anrhydeddu anwyliad. Eleni rydym yn eich gwahodd i gyflwyno eich Eirlys yr Eos eich hun sydd ar gael i'w prynu gan yr hosbis am £30. Bydd eich eirlys yn deyrnged deimladwy i fywyd anwyl neu'n rhodd hardd i rywun rydych yn eu caru ac yn eu trysori bob dydd.

Bydd dôl eleni o 1,000 o Eirlysiau'r Eos i'w gweld yng Nghastell y Waun yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol – eiddo sy'n enwog am ei eirlysiau. Mi gewch gyfle i ddod i weld yr arddangosfa drawiadol gyda chastell ysblennydd y Waun yn gefndir i'r cyfan.

I barhau â'r gwaith yn y gymuned, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn garedig iawn wedi cytuno i gynnal y Ddôl rhwng 3 a 30 Mehefin. Mae eirlysiau'n blodeuo'n gynnar yn y gwanwyn ond mi fydd eich Eirlys yr Eos chi yn blodeuo drwy'r flwyddyn gan ei fod yn flodyn unigryw, wedi'i wneud â llaw i bara am byth.

I brynu eich Eirlys yr Eos eich hun, sganiwch y cod QR isod, ewch i'n gwefan, neu ffoniwch yr hosbis ar 01978 314292. Yn hytrach na chael Tystysgrif Gyflwyno ar gyfer pob blodyn, eleni mi fydd gennym Lyfr Dathlu lle gallwch ysgrifennu eich neges bersonol. Bydd y llyfr ar gael i'w weld drwy gydol y flwyddyn pan fydd yr hosbis ar agor.

Bydd 1,000 o eirlysiau ar gael i'w harchebu o 1 Mawrth 2023 a byddant ar gael i'w casglu cyn gynted ag y bydd yr arddangosfa drosodd.

SGANWICH FI
AM RAGOR O WYBODAETH



Castell y Waun, sydd â golygfeydd hardd ar draws gwastadeddau Swyddi Caer ac Amwythig, yw cartref arddangosfa'r Eirlysiau am eleni.

CYMORTH BUSNES

PAM NA WNEWCH CHI FOD YN GEFNOGWR CORFFORAETHOL?

Yn Hosbis Tŷ'r Eos rydym yn deall gwerth perthnasoedd corfforaethol, a pha mor bwysig yw cydweithio'n glos, er lles ein gilydd. Dyma rai ffyrdd o'n cefnogi:



GWIRFODDOLI AMSER STAFF

Mae gwirfoddoli'n eithriadol o bwysig i Dŷ'r Eos, gyda dros 400 o bobl yn rhoi o'u hamser i'n helpu bob blwyddyn. Mae gwirfoddoli'n wych i adeiladu timau. Mae gennym lawer o rolau gwirfoddol ar gael yn yr hosbis i fusnesau, o ddyddiau garddio i helpu i lapio anrhegion Nadolig a gwaith prosiect mwy o bryd i'w gilydd.

NODDI DIGWYDDIAD

Mae noddi un o'n digwyddiadau'n gyfle gwych i sicrhau bod eich brand yn cael ei weld gan filoedd o bobl leol ac i ddangos eich ymrwymiad i'ch cymuned. Rydym yn trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau bob blwyddyn, o rasys rhedeg 10km i Giniawau Gala a chyngherddau, gyda phecynnau noddi'n amrywio o ychydig gannoedd i gytundebau noddi arbennig.



CYMRYD RHAN

Perswadiwch eich tîm i gymryd rhan mewn digwyddiad neu her hosbis. Mae buddiannau mawr yn dod yn sgil cymryd rhan fel adeiladu timau, hwb i forâl eich staff ac amcanion CSR. Mae nifer o opsiynau ar gael a fydd yn addas i bob math o batrymau gweithio a galluoedd. O deithiau cerdded i giniawau, heriau lleol i anturiaethau tramor!

Fy nod yw meithrin cysylltiadau newydd a chynnal ein rhai presennol. Mae ein partneriaid corfforaethol yn ffynhonnell bwysig o gefnogaeth. Wrth imi ddod i'w hadnabod yn well mae rhywbeth teimladwy am eu hymroddiad a'u ffyrdd creadigol o godi arian. Gall fod drwy ddulliau codi arian mewnol fel triathlon swyddfa, noddi digwyddiadau fel ein Taith Ganol Nos, neu roi o'u hamser i wirfoddoli i lapio anrhegion Nadolig; mae popeth yn gwneud gwahaniaeth.



Sarah Povey

Arweinydd Partneriaethau Corfforaethol



ELUSEN Y FLWYDDYN 2022 - 2023

Bu David o Charles Owen Wreccsam yn disgrifio'r profiad o weithio â ni: **"Mae cefnogi Tŷ'r Eos wedi bod yn wych, yn enwedig gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth i elusen mor arbennig. Mae Tŷ'r Eos wedi cefnogi nifer o'n staff dros y blynnyddoedd ac rydym mor falch ein bod yn gallu rhoi rhywbeth yn ôl."**

Hoffem ddweud 'diolch yn fawr' i'r tîm yn DTCC, Wreccsam am eu holl gefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Yn ychwanegol at eu nawdd, heriau personol a chodi arian, mae'r cwmni wedi cyfrannu arian tuag at yr Uned Cleifion Mewnol newydd i adeiladu ar yr arian a roddwyd ganddynt tuag at ddau gam cyntaf ein rhaglen foderneiddio.

I ddysgu sut y gall eich cwmni elwa drwy gefnogi Tŷ'r Eos, neu i ddatgan diddordeb yn ein digwyddiadau corfforaethol, cysylltwch â'n Harweinydd Partneriaethau Corfforaethol sarah.povey@nightingalehouse.co.uk

TAITH GERDDED HANNER NOS

Y DAITH GANOL NOS

Llwyn Isaf, Wrexham | Saturday 24th June 2023 | £20 Registration
Noddir gan Hoya & Hafren Dyfrdwy

Dewiswch rhwng y teithiau 5kk neu 10k. Mae'r ffi gofrestru'n cynnwys crys T y Daith Ganol Nos, potel ddŵr aml-dro Eos a lluniaeth ar ôl cwblhau'r daith!

MOTORFEST YR EOS

9 Gorffennaf 2023 | 10am O dan 5 -AM DDIM
Plant (o dan 16) - £4 | Oedolion - £7 | Teulu f4 - £18

Ymunwch â ni am sioe geir FWYAF Wrecsam! Mi welwch bob math o geir, beiciau, bysiau a champerffaniau! O'r clasurol i'r cyflym ac arddangosfeydd beiddgar hefyd! Os hoffech gael eich cynnwys ar ein rhestr bostio a bod y CYNTAF i glywed y newyddion, e-bostiwch: fundraising@nightingalehouse.co.uk



CARNIFAL BALWNAU CROESOSWALLT

Parc Cae Glas | 19 ac 20 Awst 2023

Wedi'i drefnu mewn partneriaeth â Chyngor Tref Croesoswallt, Spirit Operations ac Oswestry BID. Ymunwch â ni am benwythnos llawn hwyl gyda stondinau ac adloniant wrth helpu i godi arian gwerthfawr i'r hosbis.



CYSTADLEUAETH BÊL DROED 5 BOB OCHR YR EOS

Clwb Pêl Droed Penycae | 17 Medi 2023

£50 i Gofrestru Tîm (Isafswm nawdd timau yn £500)

Dewch atom i brofi angerdd, cystadleuaeth a brawdgarwch y gêm brydferth. Ar ffurf collwyr allan, mae'r profiad adeiladu timau unigryw hwn yn gyfle perffaith i hybu morâl eich tîm ac i wneud cysylltiadau newydd



STRICTLY NIGHTINGALES

Gwesty Carden Park | 14 Hydref 2023

Noddir gan Transcontinental AC UK Ltd

Bydd cystadleuwyr o'r gymuned leol yn cael eu paru â dawnswyr proffesiynol i ymarfer a pherfformio arddulliau dawnsio Lladin neu Ballroom yr hydref hwn. Mi fydd yn noson llawn sglein, cyffro a bwyd a diod blasus. Peidiwch â cholli'ch cyfle! 'Daliwch i ddawnsio'



A HOFFECH CHI FYNYCHU UNRHYW RAI O'R UCHOD?

Sganiwch y cod QR am ragor o fanylion neu e-bostiwch fundraising@nightingalehouse.co.uk

DIOLCH I'N



Gêm bêl droed Heddlu Wrecsam vs Legends wedi codi **£541.47**



Clwb Rotari Erddig wedi trefnu cyn-gerdd corawl a gododd **£1,000**



Ocsiwn Clwb Hwyllo Gresfordd wedi codi **£400**



Tesco Wrecsam am eu cefnogaeth â'u rhoddion mewn nwyddau



Nags Head, Wrecsam wedi codi arian drwy nosweithiau cwis



Mae Ollie a Harvey wedi bod yn gweithio'n galed ar ein hymgyrch Robin



Ifor Jones, 90 oed, a wnaeth gyfraniad yn lle arhrhegion pen blwydd



Cododd taith feic noddedig CPD Cefn Albion **£1,500**



Cododd cân Nadolig ysgolion Dale Irving a Borrás **£2,200**



Cododd Coeden Nadolig All, Gresfordd **£844.07**



Cododd ymweliadau Siôn Corn a drefnwyd gan Michael Williams **£800.00**



Cododd gweithgareddau a drefnwyd gan dafarn Kingsmills **£908.32**

CYMUNED



Cododd adran ferched Ffermwyr
Wrexham **£1,566.50**



Asda Wrexham am eu cefnogaeth a'u
cymorth mewn nwyddau



Cododd Tîm 'A' Dominos
Clwb Cymunedol Cefn **£410**



Clochyddion St Chad,
Holt wedi raised **£150**



Eagles Meadow wedi trefnu casgliad
bwced a gododd **£531.31**



Cwis wythnosol y Sun Trefor, wedi
codi'r swm rhyfeddol o **£22,981**



Cododd Ras Tractorau Elusennol
drwy Wrexham **£5,000**



Mae Caffi Wylfa/Glyn Wylfa wedi cefnogi
a chynnal llawer o ddigwyddiadau



Cododd Cŵr Meibion Trelawnyd
£2,646



Mae Pwyllgor Digwyddiadau
Cymunedol Penarlâg wedi codi **£500**



Cododd Mrs MMP Kendrick **£5,530**
drwy werthu ei jam a siytni



CERDDWYR KILIMANJARO YN CURO EU TARGED I GODI £115,000



Yn ddiweddar cwblhaodd criw o 23 o godwyr arian y diweddaraf yn eu cyfres o heriau rhwngwladol i godi arian i'r hosbis.

Cymerodd y grŵp ran mewn taith 66k mewn saith diwrnod i gyrraedd copa 5895m mynydd Kilimanjaro yn Tanzania. Dringo un o fynyddoedd enwocaf y byd oedd un o deithiau elusennol mwyaf anodd y grŵp ar uchder hyd yma.

I godi arian tuag at ofal cleifion yn yr hosbis, roedd llawer yn cymryd rhan er cof am neu i ddathlu bywyd anwylyd. Hon oedd pedwaredd her rhwngwladol yr hosbis ac roedd wedi'i gohirio yn 2021 oherwydd y pandemig. Yn rhyfeddol, roedd yn cael ei chynnal wyth wythnos yn unig ar ôl i rai aelodau o'r grŵp ddychwelyd ar ôl cwblhau Llwybr yr Inca ym Mheriw.

Cychwynnodd yr antur Kilimanjaro yn Machame Gate lle'r oeddent yn dechrau codi'n raddol drwy'r goedwig law.

Parhaodd y criw i godi nes cyrraedd Gwastatir Shira. Yno cawsant eu gwobrwyo gan olygfeydd o'r mynydd a Mynydd Meru yn codi uwchben Tref Arusha.

Roedd cyrraedd Lava Tower yn ddiwrnod pwysig o ran cynefino â'r uchder wrth iddynt gyrraedd 4,600m. Y diwrnod canlynol cyrraeddwyd y Great Barranco Wall a oedd yn golygu llawer o sgramblo gyda'r dwylo a'r traed cyn cyrraedd copa'r mynydd ar y seithfed diwrnod.

Meddai Cydlynnydd y Digwyddiadau Her Bethan Scott a oedd hefyd yn rhan o'r daith: ***"Rwyf mor falch o'r criw am herio Kilimanjaro, y mynydd uchaf yn Affrica a'r mynydd uchaf ar ei ben ei hun uwchben lefel y môr yn y byd. Mi welais â fy llygaid fy hun sut mae uchder yn***



gallu effeithio ar y tîm, gan gynnwys cyfog, cur pen, diffyg ocsigen a salwch mynydd difrifol.

“Roedd dewrder, penderfynoldeb ac ewyllys y grŵp i lwyddo’n ysbrydoliaeth. Cafwyd ffordd o oresgyn pob rhwystr. Chwalwyd targedau personol, gwnaed ffrindiau newydd, a gwithwyd cyrff i’r eithaf.

“Mi fydd yr atgof o gyrraedd y gwersyll cychwyn ac anelu am y copa am hanner nos, aros pob 15 munud i herio’r darn olaf yn aros gyda mi am byth. Mi oeddem yn sylweddoli y byddai’n anodd ond roedd yn galetach na’r disgwyl hyd yn oed. Mae’r mynydd yn un garw, a wyddai neb sut y byddai eu cyrff yn adweithio.

“Diolch i bawb a gymerodd ran ac i’r holl gefnogwyr, ein tîm o dywyswyr o Tanzania a’r tîm wrth gefn a oedd gyda ni bob cam o’r ffordd.”



TAITH CAMINO DE SANTIAGO

Ein her ryngwladol nesaf fydd llwybr pererinion y Camino De Santiago, a fydd yn cychwyn ym mis Hydref 2023. Mae hon yn daith boblogaidd iawn, ac mae gennym restr aros.

Dylai unrhyw un a hoffai gymryd rhan gysylltu â bethan.scott@nightingalehouse.co.uk

**MANYLION AM HER 2024
I’W CYHOEDDI’N FUAN!**

DATHLU PARTNERIAETH NEWYDD



Dr May Khaing



Dr Husna Munsoor



Nyrs Ymgynghorol
Tracy Thomas



Dr Jessica Roberts



Dr Melissa Everett




Dr Charlotte Healey



Yr Athro Matt Makin



Dr Jonathan Martin



Dr Richard Alleyne

Yn y llun: Tîm Tŷ'r Eos a Supportive Care UK

Rydym wedi ffurfio partneriaeth â Supportive Care UK, a fydd yn darparu gwasanaeth ymgynghorol i'r hosbis yn ogystal â chymorth rhithiol llawn i'n tîm meddygol, ynghyd â chymorth y tu allan i oriau i'r staff nyrsio. Mae meddygon Tŷ'r Eos, meddygon teulu, nyrsys, a therapyddion yn cydweithio ag ymgynghorwyr gofal lliniarol arbenigol i ddarparu gofal sy'n cael ei arwain gan gleifion i'r gymuned leol. Mae hyn yn golygu bod gweithwyr meddygol a gofal iechyd proffesiynol yn defnyddio'u sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad i drafod triniaeth cleifion unigol bob dydd.

Cyn Awst 2022, roedd ein hosbis yn dibynnu ar y bwrdd iechyd lleol, BIPBC, am fewnbwn ymgynghorwyr. Bydd y bartneriaeth newydd â Supportive Care UK yn sicrhau y bydd gan Dŷ'r Eos y cymorth ymgynghorol gorau ar gyfer model cynaliadwy i ddarparu gwasanaethau i gleifion yn y dyfodol.

Meddai Steve Parry, Prif Weithredwr Hosbis Tŷ'r Eos, **"Mae'r cymorth a ddarperir gan Supportive Care UK, ynghyd â thîm meddygol mewnol yr hosbis, yn golygu y bydd yr hosbis yn parhau i ddarparu gofal lliniarol rhagorol a bydd cyfleoedd i ehangu'r gwasanaeth yn y dyfodol. Mae'r hosbis yn ddiolchgar i BIPBC am eu cymorth ymgynghorol dros y blynyddoedd ac rydym**

yn edrych ymlaen at barhau i weithio â'r bwrdd iechyd i sicrhau bod ein cleifion i gyd yn cael y gofal gorau posibl."

Mae cyfathrebu'n allweddol i ddarparu gofal i gleifion, gan sicrhau bod y driniaeth a ddarperir yn canolbwyntio ar y cleifion a'u teulu.

"Yn Nhŷ'r Eos, rydym yn cael sawl trafodaeth grŵp am y penderfyniadau a wneir a'r hyn sydd orau i'r claf, ac mae hynny'n rhoi boddhad mawr."

- Jessica Roberts, Meddyg Teulu Tŷ'r Eos

Mae'r tîm Meddygol yn Nhŷ'r Eos a Supportive Care UK yn cydweithio i gael effaith bositif ar gleifion ac ar brofiad eu teulu pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau'r hosbis.

Meddai Prif Swyddog Gweithredu Supportive Care UK, Charlotte Healey, **"Mae Supportive Care mor falch o'r bartneriaeth â Hosbis Tŷ'r Eos i ddarparu cymorth ymgynghorol i helpu eu tîm meddygol presennol. Mae ymgynghorwyr SCUK yn cwrdd ddwywaith yr wythnos i drafod â'r Bwrdd a thimau amlddisgyblaethol yn ogystal â bod wrth law i gynnig cyngor dros y ffôn 24 awr y dydd/365 diwrnod y flwyddyn, ac i ddarparu hyfforddiant pwrpasol a goruchwyliaeth glinigol."**

MI ALLWN GASGLU EICH
HEN DDODREFN...

AM DDIM!



SGANIWCH FI!

Sganiwch y cod neu ewch i:

nightingalehouse.co.uk/collection-service

i drefnu i gasglu!

✓
COFIWCH
DICIO'R BLWCH
CYMORTH
RHODD!

TU ÔL I'R LLENNI

Mae cefnogaeth anhygoel ein gwirfoddolwyr yn hanfodol i allu'r hosbis i ddarparu cysur, gofal, a thosturi i bob claf. Maent yn helpu mewn pob math o ffyrdd, gan gynnwys rhedeg ein caffis a gweini paneidiau i'n hymwelwyr, gofalu am erddi'r hosbis, helpu â chludiant i gleifion, gweithio yn ein siopau neu yn ein digwyddiadau codi arian, a helpu staff yn yr Uned Cleifion Mewnol, i enwi dim ond ychydig o rolau.

Mae Sue a Jo yn goruchwyllo ac yn cydlyn ymdrechion y gwirfoddolwyr. Gyda'i gilydd maent yn sicrhau bod y gwirfoddolwyr i gyd yn cael hyfforddiant priodol a phob help yn eu gwaith.

"Mae'n bwysig bod gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Rwyf yn sicr yn teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi yma; mae Jo a Sue yn gweithio â mi i ganfod slot gwirfoddoli sy'n addas imi, ac rwyf yn gwerthfawrogi hynny."

- Derbynnydd Gwirfoddol, Helen Paddock

"Heb Jo a Sue, ni fyddai cangen manwerthu'r hosbis yn gallu gweithredu. Maent yn gweithio gyda'r tîm manwerthu i helpu'r 150+ o wirfoddolwyr sy'n gweithio yn ein siopau. Maent yn rhan o'r broses hurio o'r dechrau i'r diwedd ac maent yn ein helpu i gadw gweithlu gwych yn ein cymuned. Rwyf yn gwerthfawrogi eu hymdrechion a'u hymroddiad i'r hosbis."

- Katie Roberts, Pennaeth Manwerthu



Llun: Mae Sue a Jo yn gweithio â dros 400 o wirfoddolwyr yn ein hosbis a'n siopau.

GWIRFODDOLI

BYDDWCH YN ARWR IFANC YR HOSBIS

Mae Ysgolion a cholegau'n rhan allweddol o gymuned yr hosbis. Mae gwirfoddoli drwy brosiectau codi arian, ymgyrchoedd a digwyddiadau'r hosbis yn dysgu sgiliau bywyd hanfodol i fyfyrwyr i ychwanegu at eu haddysg wrth iddynt helpu eu hosbis leol.

Beth ydych chi fel arwr ifanc yr hosbis yn ei gynnig drwy wirfoddoli?

- Eich sgiliau a'ch galluoedd
- Safbwyntiau newydd
- Egni a brwdfrydedd
- Pâr arall o ddwylo

Os ydych chi neu rywun rydych yn ei adnabod yn gweithio tuag at wobrau Aur neu Arian Dug Caeredin, Bagloriaeth Cymru neu'n astudio Rheoli Digwyddiadau, Marchnata neu Fusnes mewn addysg uwch, cysylltwch ac mi allwn drafod posibilïadau gwirfoddoli.

Waeth pa weithgarwch y byddwch yn ei ddewis, bydd eich cefnogaeth yn ein helpu i ofalu ac i helpu mwy o bobl leol ar yr adegau mwyaf anodd yn eu bywydau.

Cysylltwch â gwirfoddoli ar 01978 316800 os oes gennych sgiliau mewn popeth o grefftau i arddio, trin gwallt a harddwch, gyrru, neu hobi sy'n bwysig i chi!

RYNU HEB EUOGRWYDD



A wyddoch chi fod gennym Siop Anrhegion yn yr Hosbis sydd ar agor i'r cyhoedd? Mae ein siop anrhegion y tu mewn i'r brif fynedfa yn yr hosbis ac mae ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. I weld amseroedd agor y Siop ewch i nightingalehouse.co.uk.

Os ydych chi'n chwilio am yr anrheg berffaith i ffrind neu berthynas, mae ein cyfres o anrhegion newydd sbon yn berffaith ar gyfer rhywun arbennig yn eich bywyd – neu fel rhywbeth bach i chi eich hun!

Mae ein Siop Anrhegion yn llawn anrhegion newydd, anarferol a llawn dychymyg, sy'n newid braf o ddewis y stryd fawr. Gydag amrywiaeth o enwau Cymreig lleol fel siocled Coco Pzazz, cardiau Max Rocks ac eitemau wedi'u gwneud â llaw gan Vanilla Jewellery.

Mae gennym rywbeth ar gyfer pob oed a chwaeth, ond rhaid bod yn sydyn os oes rhywbeth yn mynd â'ch bryd gan fod y stoc yn newid yn barhaus.

Mae 100% o'r elw'n mynd i ariannu ein Hosbis felly mae pob eitem yn cyfrif. Rydym ar agor i'r cyhoedd felly galwch heibio i chwilio am yr anrheg berffaith.



Nicky Duerden
Goruchwyliwr y Siop

GRWPIAU CODI ARIAN

Mae ein Grwpiau Codi Arian wedi bod yn brysur yn eu cymunedau yn trefnu partïon 'Body Shop', bingo siocled, te prynhawn, cwisiau, gwerthu cardiau wedi'u gwneud â llaw, a mwy!

Trefnodd ein Grŵp Codi Arian diweddaraf, y Waun, noson gofiadwy o gyrru a cherddoriaeth fyw yng Nghaffi Wylfa ac roedd ymateb pawb wedi gwirioni! Cawsant hefyd ddigwyddiad Nadolig arbennig gyda chŵn yn cael cyfle i dynnu ei llun â Siôn Corn gyda gwobrau i'r cŵn yn y wisg orau!

Erbyn hyn mae gennym Grwpiau Codi Arian yn y Bala, Llangollen, y Waun, Hanmer, yr Wyddgrug a Choed-llai, ac roeddem mor falch o groesawu cymaint o aelodau newydd y llynedd! Os hoffech chi helpu, mae'n gallu bod yn ffordd wych o gwrdd â phobl newydd, dysgu sgiliau newydd, a chael hwyl ar yr un pryd!

Llun: Yr enillwyr, Lowri a'i chi, Lola, gyda Siôn Corn!



Cysylltwch â susan.williams@nightingalehouse.co.uk neu delyth.underwood@nightingalehouse.co.uk am ragor o wybodaeth.



5 REGENT ST, WRECSAM LL13 1RY

**BARGEN
BRECWAST**

£4.99

TOSTI BACWN NEU SELSIG
GYDAG UNRHYW DDIOD BOETH



RHWNG 10AM A 12PM

BILLY Y CARW!



Estynnodd Tŷ'r Eos groeso i Billy, carw o The Christmas Farm UK, wrth iddo ddod ag ysbryd y Nadolig i'n cleifion a staff.

Cafodd Billy ei groesawu i ardd ein hosbis gan y plant sy'n defnyddio gwasanaethau ein Tîm Cymorth Teulu, a chleifion o'n Canolfan Llesiant. Rhoddwyd breintiau arbennig i'r plant er mwyn iddynt gael rhoi maldod a bwyd iddo!

Pan welsant Billy, roedd eraill yn yr hosbis yn wên o glust i glust. Aeth hyd yn oed at ddrysau patio'r Uned Cleifion Mewnol i rannu'r foment arbennig â hwy.

Meddai claf arall, Clayton: *"Beth sy'n fwy Nadoligaidd na charw? Mi wnes i fwynhau ymweliad Billy yn fawr. Mae'r staff yma yn Nhŷ'r Eos mor dda am feddwl am ffyrdd newydd a diddorol o'n diddanu. Maen nhw'n wych."*

Llun: Clint o Christmas Farm UK, staff yr hosbis, gwirfoddolwyr a chleifion gyda Billy y Carw

GOLEUO BYWYD

Diolch i bob un ohonoch a rannodd goffâd i anwyliaid i gofio a dathlu eu bywydau.

Weithiau mae'n hawdd anghofio cymaint yw grym cyffyrddiad, gwên neu'r arwydd lleiaf o garedigrwydd a gymaint yr ydym yn colli'r rhai rydym yn eu caru os nad ydym gyda hwy.

Rydym mor ddiolchgar i chi gan fod yr holl roddion a gafwyd gennych fel rhan o'ch coffâd wedi helpu i godi arian sydd mor bwysig i Hosbis Tŷ'r Eos.

Diolch hefyd i'n grwpiau cymunedol a'r eglwysi lleol a gynhaliodd wasanaethau mewn pentrefi ym mhob rhan o'r gymuned, gan roi cyfle inni ymuno i ddathlu'r rhai rydym yn eu caru ac nad ydynt gyda ni mwyach.



ATGYFEIRIADAU RHWYDD

Gydag un galwad ffôn yn unig, mi allwch yn awr wneud atgyfeiriad uniongyrchol i Dŷ'r Eos os oes gennych chi neu anwylyd salwch sy'n cyfyngu ar fywyd a/neu sy'n gynyddol.

Nid oes yn rhaid i chi aros am atgyfeiriad i drafod eich anghenion clinigol ag un o'n tîm gofal iechyd arbenigol. Mae hyn yn golygu y gall cleifion â salwch sy'n cyfyngu ar fywyd a/neu gynyddol sy'n cael anhawster delio â symptomau na ellir eu rheoli fel poen, salwch neu symudedd gysylltu â ni eu hunain neu gael aelod o'u teulu neu ofalwr i wneud hynny ar eu rhan.

Yn ogystal â thriniaethau cyfannol fel aromatherapi, tylino, ac ymwybyddiaeth ofalgar, mi allwn gynnig triniaethau sy'n rheoli symptomau, ffisiotherapi, a chymorth â phroblemau anadlu. Os bydd angen help ar gleifion â materion ymarferol, rydym yn eu cynnig naill ai drwy ein tîm cymorth teulu neu therapi galwedigaethol.

Gall ein tîm gwybodys gynnal asesiad dros y ffôn a thrafod eich union anghenion. Ar ôl inni gael yr alwad, byddwn yn cysylltu â nyrsys ardal a swyddfeydd meddyg teulu ac yn cwblhau'r gwaith papur angenrheidiol.

Byddwn yn gwneud pob ymdrech i siarad â'ch prif ddarparwr gofal, fel eich meddyg teulu neu nyrs ardal, i gadarnhau eich cais i gael eich derbyn neu i ddefnyddio ein gwasanaethau ac i gasglu'r data clinigol angenrheidiol. Byddwn yn eich diweddaru ar gynnydd eich galwad neu ymholiad atgyfeirio.

Meini Prawf Atgyfeirio Uniongyrchol:

- Dros 18 oed
- Byw yn Wrecsam, Sir y Fflint, Dwyrain Sir Ddinbych, coridor yr A494 i Abermaw, a'r gororau gan gynnwys Croesoswallt, Ellesmere, Wem a Whitchurch
- Wedi cael diagnosis lliniarol (salwch sy'n cyfyngu ar fywyd a/neu gynyddol) – gall hyn gynnwys canser, methiant y galon, cyflyrau niwrolegol fel clefyd niwronau motor ac sy'n hysbys i dimau nyrsys ardal/meddyg teulu



“ Rydym yn helpu ein cleifion mewn amryw o ffyrdd boed hwy'n dod atom fel cleifion dydd neu wedi'u derbyn fel claf preswyl. Mae ein cleifion a'u hanwyliaid yn dweud yn aml pa mor ymlaciol a chyfeillgar yw'r hosbis cyn gynted ag y byddant yn dod i mewn drwy'r drws. Fel gwasanaeth mi allwn helpu cleifion drwy ein tîm cymorth teulu neu therapi galwedigaethol.

”

- Mandy Cunningham
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol

Llinell Gymorth Derbyniadau Clinigol Gyfrinachol

01978 316806

(ar gael yn ystod yr wythnos rhwng 8am a 4pm)

Y tu allan i oriau ffoniwch 01978 316800

LANCIO RHAGLEN LLESIANT NEWYDD



Rydym yn ail-lansio ein 'Huned Gwasanaethau Dydd' fel 'Canolfan Llesiant yr Eos' i gyd-fynd â rhaglen newydd sbon sy'n canolbwyntio ar ofal cyfannol i gleifion, a ddatblygwyd gan y tîm clinigol a meddygol i ategu'r gwasanaethau presennol.

"Mae pawb yn Nhŷ'r Eos yn rhoi pwyslais ar lesiant cleifion; bydd Canolfan Llesiant yr Eos yn cael ei hail-enwi i adlewyrchu'n well y cymorth rydym yn ei ddarparu i gleifion â salwch sy'n cyfyngu ar fywyd a/neu'n gynyddol", meddai Carolyn, Arweinydd y Ganolfan Llesiant sydd newydd ei phenodi, a eglurodd hefyd pam mae'r rhaglen newydd wedi cael ei datblygu.

"Roedd cyfle i ail-ddatblygu a dylunio rhaglen 12 wythnos newydd i optimeiddio ansawdd bywyd cleifion, i'w galluogi i fyw'n dda gyda'u diagnosis drwy gynnig gofal therapiwtig, yn ogystal ag amrywiaeth o weithgareddau i helpu cleifion a gofalmwr. Rydym eisoes wedi cael adborth ardderchog gan gleifion sy'n dod o bob rhan o'n dalgylch."

Mae'r rhaglen 12 wythnos yn cyfuno amrywiaeth o wasanaethau i gleifion a ddarperir gan yr hosbis, i sicrhau ei bod yn haws iddynt gael y cymorth hanfodol hwn. Mae gweithgareddau'r rhaglen yn amrywio o ffyrdd o reoli problemau anadlu, help â symudedd, a dosbarthiadau ymarfer corff i sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar, gan roi pwyslais ar lesiant meddwl y cleifion. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys cŵn therapi sy'n ymweld â'r cleifion, pob math o grefftiau ac addysg am arian a budd-daliadau. A nod pob un yw helpu cleifion drwy eu diagnosis.

Meddai Mandy, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol *"Rydym yn credu y bydd y rhaglen gyfannol 12 wythnos yn rhoi'r modd i gleifion i fyw gystal ag y gallant o fewn cyfyngiadau eu salwch, a bydd ein tîm yn eu helpu i wneud hynny."*

CYSYLLTU Â NI

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag info@nightingalehouse.co.uk

RAFFFL FAWR YR HAF

100% O'R ELW I HOSBIS Tŷ'R EOS



**SGANIWCH
FI!**



Nightingale House Hospice
Hospis Tŷ'r Eos

DYDDIAD TYNNU: 22 MEHEFIN 2023

01978 313134

NIGHTINGALEHOUSE.CO.UK/SUPERDRAW

**3 GWOBR
WYCH I'W HENNILL!**

1AF - £3000

2IL - £2000

3YDD - £1000